ADDYSG AR GYFER DINASYDDIAETH FYD-EANG

Arweiniad i ysgolion

OXFAM



"RHAID INNI FEITHRIN DINASYDDIAETH FYD-EANG. MAE MWY I ADDYSG NA LLYTHRENNEDD A RHIFEDD. Y MAE HEFYD YN YMWNEUD Â DINASYDDIAETH. MAE'N RHAID I ADDYSG FYND I'R AFAEL Â'I RÔL HANFODOL O HELPU POBL I FFURFIO CYMDEITHASAU SY'N FWY CYFIAWN, HEDDYCHLON A GODDEFGAR."

Ban Ki-moon, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig (2012)

CYNNWYS

Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang	5
Diffiniad Oxfam	5
Addysg hanfodol	6
Addysg ragorol	7
Cyflwyniad i Gwricwlwm Oxfam ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang	8
Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr ystafell ddosbarth	9
Dinasyddiaeth Fyd-eang ar draws y cwricwlwm	12
Ymagwedd ysgol gyfan	14
Cwricwlwm Oxfam ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-Eang	16
Adnoddau a chymorth pellach	22

Llun: Nigel Willmott

RHAGAIR

P'un a ydych yn bennaeth profiadol neu newydd gychwyn ar eich gyrfa addysgu, gall y canllaw hwn eich helpu i ddatblygu cwricwlwm eich ysgol mewn ffyrdd newydd llawn ysbrydoliaeth. Mae'n seiliedig ar fwy na 50 mlynedd o waith Oxfam gydag addysgwyr, adborth parhaus gan athrawon ac arweinwyr ysgolion, a chredoau a gwerthoedd creiddiol Oxfam.

Gan fod yn ystyriol o'r fath raddau y mae'r byd wedi newid ers i Gwricwlwm Oxfam ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang gael ei gyhoeddi gyntaf ym 1997, bu Oxfam yn cydweithio ag addysgwyr i adolygu a diweddaru ein canllaw. Mewn cyd-destun byd-eang sy'n newid yn barhaus, nid yw ein dehongliad o'r hyn mae'n golygu i addysgu ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang wedi'i sefydlu'n derfynol. Hefyd, er i Gwricwlwm Oxfam ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang daro tant ymysg addysgwyr ledled y byd, y mae wedi'i ddatblygu yng nghyd-destun addysg ffurfiol yn y Deyrnas Unedig, ac nid ydym yn honni ei fod yn derfynol yn y cyd-destun hwn nac mewn unrhyw gyd-destun arall. Nid nod y canllaw hwn, felly, yw datgan yn awdurdodol, ond eich ysbrydoli a'ch cyfarwyddo i feddwl a thrafod ymhellach, a datblygu eich cwricwlwm ymhellach. Os yw'n llwyddo i wneud hynny, bydd wedi cyflawni ei ddiben.

I gael arweiniad ymarferol ar ymarfer yn yr ystafell ddosbarth, rydym yn argymell eich bod yn defnyddio'r canllaw hwn ochr yn ochr â chwaer-gyhoeddiad Oxfam, *Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i Athrawon*.

Llun: John McLaverty

CYDNABYDDIAETHAU

Mae diolch yn ddyledus i'r canlynol am eu cyngor wrth lunio adolygiad 2015 y canllaw hwn: Heather Abel, Yvette Allen, Nasrullah Anwar, Clive Belgeonne, Douglas Bourn, Liz Brown, Bill Burson, Susan Bush, Shane Claridge, Helen Cox, Diana Ellis, William Essilfie, Claire Fulton, Helen Griffin, Fran Hunt, Avril Keating, Natalya Kan, Ruth Najda, Laura Oxley, Sylvia Paddock, Richard Smith, Lisa Taner, Julie Thorpe, Rob Unwin a Chymdeithas Addysg Datblygu Rhyngwladol yr Alban (IDEAS). Ond Oxfam sy'n cymryd y cyfrifoldeb llawn am y testun terfynol.

ADDYSG AR GYFER DINASYDDIAETH FYD-EANG: DIFFINIAD OXFAM

Gweledigaeth drawsnewidiol o addysg

Mae Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn fframwaith i rymuso dysgwyr i wynebu heriau a chyfleoedd bywyd mewn byd cyd-ddibynnol sy'n newid yn gyflym, a hynny mewn ffordd feirniadol a gweithredol. Y mae'n drawsnewidiol, yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau, y gwerthoedd a'r agweddau sydd eu hangen ar ddysgwyr er mwyn cyfranogi'n llawn mewn cymdeithas ac economi byd-eang a sicrhau byd sy'n fwy cyfiawn, diogel a chynaliadwy na'r hyn a etifeddwyd ganddynt hwy.

Dysgu, meddwl a gweithredu

Mae Oxfam yn credu bod ffordd pobl ifanc o ddysgu, meddwl a gweithredu – yn awr ac yn eu bywydau fel oedolion – yn greiddiol i gyflawni dyfodol byd-eang sy'n fwy cyfiawn, diogel a chynaliadwy. Felly, ynghyd â datblygu dealltwriaeth fyd-eang a safbwyntiau niferus mewn ffordd gadarn, dylai addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang hefyd gynnwys cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau ar gyfer sbarduno newid a myfyrio'n feirniadol ar y rôl hon.

Mae'r canllaw hwn – sy'n cynnwys Cwricwlwm Oxfam ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang (sydd i'w weld ar dudalennau 16-21) – yn rhoi diffiniad pellach o'r weledigaeth hon o addysg.

Y DINESYDD BYD-EANG

Mae Oxfam yn ystyried bod y dinesydd byd-eang yn rhywun sydd:

- Yn ymwybodol o'r byd ehangach ac sydd â synnwyr o'i rôl ei hun fel dinesydd y byd.
- Yn parchu a gwerthfawrogi amrywiaeth.
- Â dealltwriaeth o sut mae'r byd yn gweithio.
- Yn angerddol ei (h)ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol.
- Yn rhan o'r gymuned ar amryw lefelau, o'r lleol i'r byd-eang.
- Yn gweithio gydag eraill i wneud y byd yn lle mwy cyfiawn a chynaliadwy.
- Yn cymryd cyfrifoldeb am ei (g)weithredoedd.

MYFYRIO A THRAFOD

- Beth ydych chi'n ystyried yw prif ddibenion addysg?
- Mae amrywiaeth o safbwyntiau ynglŷn ag ystyr Dinasyddiaeth Fyd-eang. Felly sut byddech chi'n diffinio 'dinesydd byd-eang'? Sut mae eich syniadau yn cymharu â rhai Oxfam?

Ambell sylw gan ddysgwyr yn ysgolion Ffurfwyr Byd Oxfam:

"Mae bod yn ddinesydd byd-eang yn golygu y gallwch ddangos empathi a rhoi eich hun yn esgidiau pobl eraill, a bod â breuddwydion tebyg ac eisiau i bawb fod yn gyfartal"

"Dinesydd byd-eang yw rhywun sy'n cyfrannu i gymuned ehangach y byd. Nid dilyn y dorf yn unig a wna; mae'n unigolyn ac mae eisiau gwneud gwahaniaeth ond mae'n gwybod na all wneud hynny ar ei ben ei hun."

"Mae bod yn ddinesydd byd-eang yn golygu gwybod am bynciau llosg o amgylch y byd."

"Rwy'n credu bod dinasyddiaeth fyd-eang yn golygu bod â ffordd benodol o feddwl, o fod yn optimistaidd, a bod â'r nodweddion arbennig hynny sy'n gwneud ichi feddwl am yr hyn sydd am ddigwydd yn y dyfodol a sut rydych am ei newid."

ADDYSG HANFODOL

O amgylch y byd, y mae mwy a mwy yn cydnabod pwysigrwydd sylfaenol addysgu ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang oherwydd:

- Mae ar bob dysgwr angen cyfle i ystyried y materion byd-eang cymhleth a dadleuol y maent yn dod ar eu traws drwy'r cyfryngau ac yn eu profiadau eu hunain, a gall yr ysgol helpu i ddarparu'r cyfle hwn. Mae plant ifanc iawn, hyd yn oed, eisoes yn ceisio gwneud synnwyr o fyd sy'n llawn rhaniadau, gwrthdaro, newid amgylcheddol, anghydraddoldeb a thlodi.
- Y mae iddo rôl allweddol wrth roi i genhedlaeth y weledigaeth a'r modd i wynebu heriau cymhleth sydd uwchlaw ffiniau gwledydd.
- Rydym yn byw mewn byd sy'n gynyddol fyd-eang a rhyng-gysylltiedig lle mae'r byd-eang yn rhan o'n bywydau bob dydd, ac mae cael safbwyntiau byd-eang o fudd i ddadansoddi materion sy'n ymddangos yn lleol.
- Mae gwaith ymchwil (gan Think Global, er enghraifft) a'n gwaith ein hunain mewn ysgolion, wedi dangos y galw sydd gan ddysgwyr.

"MAE'R CYSYLLTIADAU SY'N CLYMU YN ... GADWYNI ACHOS AC EFFAITH SY'N CREU YMRWYMIADAU O GYFIAWNDER YN HYTRACH NA CHYDYMDEIMLAD, TOSTURI, NEU HAELIONI."

Andrew Dobson, Athro'r Gwyddorau Gwleidyddol, Prifysgol Keele

MAE'R BYD-EANG YN LLEOL

Rydym yn fwy cysylltiedig nag erioed o'r blaen i bobl eraill ar bob cyfandir:

- Yn gymdeithasol a diwylliannol drwy'r cyfryngau, telegyfathrebu, teithio a mudo.
- Yn economaidd drwy fasnach.
- Yn amgylcheddol drwy rannu un blaned.
- Yn wleidyddol drwy gysylltiadau rhyngwladol a systemau rheoleiddio.

Llun: Nigel Willmott

ADDYSG RAGOROL

Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn ymwybodol y gall addysg dinasyddiaeth fyd-eang ddatblygu a chyfoethogi gwerthoedd a sgiliau y maent yn eu hystyried yn greiddiol i'w nodau addysgol ac ethos yr ysgol. Yn gryno, maent yn ei hystyried yn gyfystyr â'u dealltwriaeth o addysg ragorol ac yn rhan annatod o gwricwlwm eang a chytbwys.

Gall addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang gynorthwyo amrywiaeth eang o flaenoriaethau gwella ysgol a chanlyniadau addysgol, am ei bod yn cynnwys cyfoeth o gyd-destunau bywyd go iawn a all ysbrydoli'r dysgwyr a chynyddu eu hysgogiad a'u cyrhaeddiad. Y mae hefyd yn pwysleisio datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol a chreadigol, ymresymu a chyfathrebu. Mae'r amrywiaeth eang o fethodolegau addysgu a dysgu cyfranogol yn cynorthwyo'r dysgwyr i gaffael sgiliau o'r fath yn ogystal â'u dealltwriaeth o gyd-destunau byd-eang eu bywydau.

"MAE DYSGWYR YN DOD ATOM AG ACHOSION A CHYSYNIADAU BYD-EANG Y MAENT EISIAU EU HYSTYRIED A'U HYRWYDDO. MAEN NHW'N DWEUD: 'MAE GENNYM NI HAWL I DDYSGU AM HYN YN EIN HYSGOL; ALLWCH CHI EIN HADDYSGU NI NEU EIN HELPU I'N HADDYSGU EIN HUNAIN?' AC MAE HYNNY WEDI BOD YN HYFRYD."

Richard Smith, Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Arloesi, St John's Marlborough

Mae Dinasyddiaeth Fyd-eang yn golygu...	Nid yw'n golygu...
✓ gofyn cwestiynau a meddwl yn feirniadol	× dweud wrth bobl beth i'w feddwl a beth i'w wneud
✓ ystyried cysylltiadau rhwng y lleol a'r byd-eang a'n barn, ein gwerthoedd a'n rhagdybiaethau ni	× lleoedd a phobloedd pell i ffwrdd yn unig
✓ ystyried cymhlethdod materion byd-eang ac edrych o safbwyntiau niferus	× rhoi atebion syml i faterion cymhleth
✓ ystyried materion cyfiawnder cymdeithasol yn lleol ac yn fyd-eang	× canolbwyntio ar godi arian yn elusennol
✓ cymhwyso'r hyn a ddysgir i faterion a chyd-destunau yn y byd go iawn	× dysgu haniaethol heb ei gymhwyso i fywyd go iawn a heb ganlyniadau bywyd go iawn
✓ cyfleoedd i ddysgwyr weithredu mewn ffordd gytbwys a myfyriol, ac i fynegi'u barn	× cynnwys dysgwyr mewn penderfyniadau mewn ffordd symbolaidd
✓ pob oedran	× bod yn rhy anodd i blant ifanc ei deall
✓ pob maes yn y cwricwlwm	× pwnc ychwanegol
✓ cyfoethogi'r hyn sy'n cael ei addysgu a'i ddysgu bob dydd	× ffocws ar gyfer diwrnod neu wythnosol benodol yn unig
✓ amgylchedd yr ysgol gyfan	× bod yn gyfyngedig i'r ystafell ddosbarth

"MAE GWERTHOEDD Y PLANT A'U HAGWEDDAU AT DDYSGU YN CAEL EU TRAWSNEWID GAN GYNNWYS YR HYN Y GALL CWRICWLWM DINASYDDIAETH FYD-EANG DDARPARU."

Shane Claridge, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gynradd Rhodes Avenue

"HANNER Y STORI YN UNIG YW ARHOLIADAU – RYDYM HEFYD EISIAU FFURFIO UNIGOLION CRWN AC MAE DINASYDDIAETH FYD-EANG YN RHAN ENFAWR O'R FFORDD RYDYM YN GWNEUD HYNNY."

Claire Robins, Pennaeth, Ysgol Syr John Lawes

CYFLWYNIAD I GWRICWLWM OXFAM AR GYFER DINASYDDIAETH FYD-EANG

Mae'r elfennau allweddol ar gyfer datblygu dinasyddiaeth fyd-eang weithredol a chyfrifol wedi'u nodi isod, sef: gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd. Mae'r amlinelliad o'r cwricwlwm ar dudalennau 16-21 yn rhoi amlinelliad o'r hyn mae Oxfam yn golygu wrth bob un o'r elfennau allweddol hyn, gan fanylu arnynt i ddangos dilyniant o'r blynyddoedd cynnar hyd at y cyfnod 16-19 oed. Felly, dylai sgiliau fel cydweithredu a chyfathrebu, a gychwynnwyd yn y blynyddoedd cynnar, barhau i ddatblygu drwy gydol addysg y dysgwr.

Nid canllaw cynhwysfawr a rhagnodol yw'r amlinelliad o'r cwricwlwm ar dudalennau 16-19; ei ddiben yw ysgogi meddwl, trafodaeth a chynllunio pellach.

MYFYRIO A THRAFOD

- Beth ydych yn meddwl yw'r agweddau, y gwerthoedd, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau pwysicaf sydd eu hangen ar ddysgwyr yn y byd heddiw ac yn y dyfodol?
- Sut mae eich syniadau yn cymharu â'r elfennau allweddol sydd wedi'u diffinio gan Oxfam?

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwerthoedd ac agweddau
Cyfiawnder a thegwch cymdeithasol	Meddwl yn feirniadol a chreadigol	Synnwyr o hunaniaeth a hunan-werth
Hunaniaeth ac amrywiaeth	Empathi	Ymrwymiad i gyfiawnder a thegwch cymdeithasol
Globaleiddio a chyd-ddibyniaeth	Hunanymwybyddiaeth a myfyrio	Parch at bobl a hawliau dynol
Datblygu cynaliadwy	Cyfathrebu	Gwerthfawrogi amrywiaeth
Heddwch a gwrthdaro	Cydweithio a datrys gwrthdaro	Gofal am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy
Hawliau dynol	Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd	Ymrwymiad i gyfranogi a chynhwysiant
Pŵer a llywodraethu	Gweithredu cytbwys a myfyriol	Y gred y gall pobl greu newid

Llun: Caroline Irby

DINASYDDIAETH FYD-EANG YN YR YSTAFELL DDOSBARTH

Mae addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn defnyddio amrywiaeth o fethodolegau addysgu a dysgu, gan gynnwys trafodaeth a dadl, chwarae rôl, ymarferiadau trefnu, gweithgareddau ffactorau achosi a chanlyniadau, a chymunedau ymholi. Nid yw'r dulliau hyn yn unigryw i addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang, ond o'u defnyddio ar y cyd â safbwynt byd-eang, gallant hybu dealltwriaeth fyd-eang ynghyd â meithrin sgiliau fel meddwl yn feirniadol, cwestiynu, cyfathrebu a chydweithio. Maent hefyd yn galluogi'r dysgwyr i ystyried, datblygu a mynegi eu gwerthoedd a'u barn eu hunain, tra'n gwrando'n barchus ar safbwyntiau pobl eraill. Dyma gam pwysig i ddysgwyr wneud dewisiadau cytbwys ynglŷn â sut maent yn ymwneud â materion byd-eang. Mae'r astudiaethau achos canlynol yn tynnu sylw at sut mae athrawon wedi llwyddo i ddatblygu ffocws ar ddinasyddiaeth fyd-eang wrth ddatblygu eu cwricwlwm. Maent yn rhoi syniadau o sut gall dinasyddiaeth fyd-eang gyfoethogi gwahanol feysydd yn y cwricwlwm ar draws yr ystod oedran.

Ceir arweiniad pellach ar sut mae dinasyddiaeth fyd-eang yn berthnasol i bob maes yn y cwricwlwm ar dudalennau 12-13, a cheir manylion cymorth pellach ar dudalen 22-23.

Llun: Georgie Scott/GCE UK

Mae *Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i Athrawon*, Oxfam, yn cynnwys arweiniad ar sut i ddefnyddio amrywiaeth eang o offer addysgu yn ymwneud ag addysg dinasyddiaeth fyd-eang, gan gynnwys:

- Cadwyni pam-pam-pam
- Cadwyni canlyniadau
- Coed materion
- Dirgelwch
- Continwa barn
- Diemwnt naw

Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys fframwaith i gynorthwyo â'r gwaith o gynllunio unedau unigol o waith yn y dosbarth.

MYFYRIO A THRAFOD

- Sut gall dinasyddiaeth fyd-eang ddyfnhau'r dysgu fel rhan o, ac ar draws cwricwlwm eich ysgol?

ASTUDIAETH ACHOS YSTYRIED DATBLYGU CYNALIADWY AR DRAWS Y CWRICWLWM

Yn dilyn hyfforddiant staff gan Oxfam a Liverpool World Centre, datblygodd athrawon yn Ysgol Gynradd Woodlands unedau newydd a ystyriai syniadau yn ymwneud â datblygu cynaliadwy i'r plant ieuengaf gan ddefnyddio Athroniaeth i Blant, ymweliadau addysgol lleol a llyfrau gan Michael Foreman. Ar gyfer dysgwyr 4-5 oed, roeddynt yn defnyddio llyfr 'One World' gan Foreman ac ymweliad â pharc gwledig i ystyried effaith gweithredoedd pobl ar yr amgylchedd. Gyda dysgwyr 5-7 oed, defnyddiai'r athrawon lyfr 'Dinosaurs and all that rubbish' gan Foreman ac ymweliad â chanolfan ailgylchu i ystyried ein byd a'i ddarpariaeth o ddeunyddiau, bwyd a dŵr sydd eu hangen arnom a sut gall pobl wneud gwahaniaeth i faterion cynaliadwyedd. Wrth wneud hynny, roedd yr athrawon yn creu cysylltiadau ar draws y cwricwlwm gyda llythrennedd, gwyddoniaeth, addysg grefyddol, daearyddiaeth, dawns a chyfrifiadureg. Yn y ddwy uned, roedd defnyddio Athroniaeth i Blant yn annog y dysgwyr i feddwl yn feirniadol am bryderon amgylcheddol byd-eang ac yn llwyddo i'w cael i weithio ar eu gorau, gan ryfeddu eu hathrawon:

"Roedden ni'n synnu'n fawr y gallai plant mor ifanc drafod, dadlau a dod o hyd i atebion i broblemau sydd o bwys byd-eang. Gallant ddadlau eu hachos yn effeithiol, ac ni ddylai oedolion sy'n gweithio gyda phlant ifanc iawn fod ag unrhyw ragdybiaethau ynglŷn â'u gallu i ymwneud â materion byd-eang."

Andrew Cowderoy, Cydlynydd Partneriaethau Rhyngwladol, Ysgol Gynradd Woodlands

ASTUDIAETH ACHOS YSTYRIED ANGHYDRADDOLDEBAU RHYW DRWY ADDYSG GREFYDDOL

Bu dysgwyr 13-14 oed yn Ysgol Uwchradd Craigie, Dundee, yn ystyried anghydraddoldebau rhyw mewn addysg fel rhan o'u Haddysg Grefyddol a Moesol Craidd. Ar ôl ymchwilio i faterion yn ymwneud â merched yn derbyn addysg, ystyried astudiaethau achos, a thrafod atebion posibl, lluniodd y dysgwyr 'goeden faterion'. Defnyddiwyd y goeden hon i nodi effeithiau anghydraddoldebau rhyw mewn addysg, a'r ffactorau craidd sy'n eu hachosi, ynghyd ag atebion posibl. Datblygwyd yr uned hon gan Katie Turner fel rhan o raglen Llysgenhadon Addysgu Byd-eang sy'n cael ei rhedeg gan Gymdeithas Addysg Datblygu Rhyngwladol yr Alban. Meddai Katie bod y methodolegau a ddysgodd drwy'r rhaglen hon wedi caniatáu iddi ddatblygu perchnogaeth eu dysgwyr o'r mater ynghyd â'u sgiliau meddwl yn greadigol a'u hempathi.

"Yr hyn a ddaeth yn amlwg i mi oedd teimlad y disgyblion o anghyfiawnder. Rydyn ni'n aml yn tybio bod ein disgyblion wedi'u disensiteiddio i lawer o'r materion byd-eang, ond wrth roi'r cyfle iddynt wir ystyried mater penodol – ffactorau craidd sy'n ei achosi, yr effaith mae'n cael ar bobl, ac atebion posibl – roedd y disgyblion yn rhannu eu barn, yn trafod syniadau ac yn gwrando ar ei gilydd. Roeddynt yn gwybod mor bwysig oedd eu llais."

Katie Kirk, Athrawes Addysg Grefyddol a Moesol, Ysgol Uwchradd Craigie

ASTUDIAETH ACHOS GLOBALEIDDIO MATHEMATEG

Llwyddodd Ysgol Gynradd Uffington i gyfuno mathemateg a dinasyddiaeth fyd-eang ar gyfer dysgwyr cynradd hŷn gan ddefnyddio adnodd Pawb yn Cyfri Oxfam. Mae'r adnodd, sy'n gysylltiedig â'r cwricwla mathemateg yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn seiliedig ar astudiaeth hydredol o 20,000 o blant a oedd yn byw yn Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam rhwng 2000 a 2015. Gan ddefnyddio astudiaethau achos ac ystadegau go iawn, gallai'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau trin data a dweud faint o'r gloch ydyw tra hefyd yn ystyried materion byd-eang. Defnyddiai athrawon Uffington amrywiaeth eang o ddulliau cyfranogol i gynnal sylw'r dysgwyr, gan gynnwys defnyddio cylchoedd i greu diagramau Venn er mwyn cymharu gwahanol safbwyntiau ar ystyr lles, a ffeithluniau i gymharu ystadegau fel canran y plant sy'n mynychu ysgol gynradd ym mhob gwlad. I gloi'r prosiect, bu'r disgyblion yn arwain gwasanaeth, yn seiliedig ar Pawb yn Cyfri, a gwahoddwyd y rhieni i fod yn bresennol.

"Roedd yn agor llond byd o bethau nad oeddwn i'n gwybod. Roeddwn i'n meddwl bod India gyfan yn dlawd, ond mae ardaloedd cyfoethog yno hefyd."
Dysgwr o ddosbarth blwyddyn 3 a 4

"Roeddwn i'n mwynhau dysgu am wahanol wledydd yn ogystal â'n gwlad ni, ac roeddwn i'n hoff o'r data go iawn."
Dysgwr o ddosbarth blwyddyn 5 a 6

"Roedd ymdrin â data bywyd go iawn yn golygu bod y plant yn gweld mwy o bwrpas i'r fathemateg."
Carol Turner, Cydlynydd Mathemateg, Ysgol Gynradd Uffington

ASTUDIAETH ACHOS TECHNOLEG BWYD, PARTNERIAETHAU YSGOL A DINASYDDIAETH FYD-EANG WEITHREDOL

Gyda chymorth rhaglen Ffurfwyr Byd Oxfam, datblygodd Ysgol Deptford Green yn Llundain brosiect technoleg bwyd lefel-uwchradd gyda'i hysgolion partner, Ysgol St Kizito yn Kampala a Rainbow College yn Lagos. Nod y prosiect oedd datblygu sgiliau ymchwil y dysgwyr a dyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faetheg a'r system fwyd fyd-eang. Roedd hefyd yn datblygu sgiliau'r dysgwyr fel eiriolwyr a hyrwyddwyr newid. Aeth dysgwyr o bob ysgol ati i ymchwilio gan dracio effaith newidiadau i bris bwyd ar eu cymunedau lleol. Ymwelwyd â marchnadoedd bwyd lleol, gan gyfweld â masnachwyr a chwsmeriaid a nodi prisiau a gwerth maethol y bwyd oedd ar werth, ac ystyried effeithiau newidiadau i'r prisiau ar arferion siopa a maetheg. Cyfunwyd canfyddiadau dysgwyr y tair ysgol ac edrychwyd ar y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau. Roedd Ysgol Deptford Green hefyd yn defnyddio'r prosiect yn gyfle i'r dysgwyr gwrdd a'u Haelod Seneddol. Cyflwynwyd tystiolaeth eu prosiect a gofynnwyd i'r AS ddal Llywodraeth y DU i gyfrif gan sicrhau ei bod yn chwarae ei rhan yn llawn er mwyn trechu newyn.

DINASYDDIAETH FYD-EANG AR DRAWS Y CWRICWLWM

Mae dinasyddiaeth fyd-eang yn cyfoethogi'r holl feysydd yng nghwricwlwm yr ysgol ac mae i bob pwnc gyfraniad pwysig i'w wneud i ddatblygu'r elfennau allweddol sydd wedi'u nodi ar dudalen 8. Dyma ychydig o'r ffyrdd y gall cwricwlwm pynciau a dinasyddiaeth fyd-eang gael eu datblygu mewn ffordd sy'n fuddiol i'r naill a'r llall:

Celf a Dylunio

- ystyried sut mae materion byd-eang a themâu fel hunaniaeth, dynoliaeth gyffredin, gwahaniaeth, amrywiaeth, gwrthdaro a chyfiawnder yn cael eu cynrychioli mewn celf
- adnabod gwahanol safbwyntiau, syniadau, credoau a gwerthoedd
- darparu cyfleoedd i ddysgu am wahanol ddiwylliannau, a dysgu o'r diwylliannau hynny, drwy drin delweddau ac arteffactau

Dinasyddiaeth

- ymwneud â themâu cyfiawnder cymdeithasol, hawliau dynol, cydlyniant cymunedol a chyd-ddibyniaeth fyd-eang
- darparu cyfleoedd i herio anghyfiawnder, anghydraddoldeb a gwahaniaethu drwy weithredu'n gytbwys a chyfrifol
- ystyried themâu amrywiaeth, hunaniaeth a pherthyn
- dysgu am bŵer a llywodraethu, a dadansoddi ffactorau sy'n achosi rhyngberthynas pŵer anghyfartal ac effeithiau hynny

Dylunio a Thechnoleg (gan gynnwys bwyd)

- ystyried effeithiau dylunio a thechnoleg ar y byd ac ar ansawdd bywyd
- mynd i'r afael â materion cynaliadwyedd ym maes dylunio cynnyrch
- ystyried y cyd-destunau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sydd i gynnyrch, a thechnoleg gynaliadwy
- dadansoddi materion moesegol a chynaliadwyedd mewn systemau bwyd, a'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a gwleidyddol sy'n effeithio ar faetheg

Cymraeg, Saesneg, Astudiaethau'r Cyfryngau a Drama

- datblygu empathi, sgiliau cyfathrebu a'r gallu i ddadlau yn effeithiol, gan ystyried dealltwriaeth o faterion sy'n gyffredin i feysydd personol a byd-eang, fel rhagfarn a gwrthdaro
- darparu cyfleoedd i ddefnyddio ystyriaeth o faterion byd-eang yn gyd-destunau bywyd go iawn i ddatblygu sgiliau craidd (er enghraifft, ysgrifennu er mwyn dwyn perswâd, ac iaith lafar)
- datblygu llythrennedd sy'n beirniadu'r cyfryngau, ac ystyried sut mae pobloedd a lleoedd yn cael cynrychioli, a hegemoni'r iaith Saesneg a ffyrdd 'y gorllewin' o weld y byd
- ystyried gwerthoedd, credoau a phrofiadau gwahanol grwpiau o bobl, a ffyrdd eraill o weld a gwybod, gan dynnu ar destunau a syniadau o amrywiaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau

Daearyddiaeth

- cwestiynu, ymchwilio ac ymdrin yn feirniadol â materion sy'n effeithio ar fywydau pobl ledled y byd
- datblygu dealltwriaeth o gydgysylltiad a chyd-ddibyniaeth, ac o ddatblygu cynaliadwy
- darparu materion a data diddorol o'r byd go iawn i hybu sgiliau daearyddol craidd
- mynd i'r afael â materion amrywiaeth a hunaniaeth drwy ymchwilio i wahaniaethau a nodweddion tebyg rhwng pobl, lleoedd, amgylcheddau a diwylliannau, a thrwy ystyried gwahanol werthoedd ac agweddau mewn perthynas â chwestiynau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a gwleidyddol

Hanes

- ystyried gwahaniaethau a nodweddion tebyg rhwng digwyddiadau, pobl, lleoedd, diwylliannau ac amgylcheddau drwy amser, a chyd-gysylltiad a chyd-ddibyniaeth hanes ein byd
- ystyried cwestiynau'n ymwneud â phŵer a braint, a meddwl yn feirniadol am resymau pam y caiff hanes ei ddehongli mewn gwahanol ffyrdd
- ystyried arwyddocâd gweithredoedd unigol a chyfunol, a chwestiynau'n ymwneud â chyfrifoldeb dinesig a chymdeithasol
- ystyried themâu megis anghydraddoldeb, rhagfarn, gwrthdaro a gorthrwm, a chymharu enghreifftiau hanesyddol â digwyddiadau a phrofiadau cyfoes

Cyfrifiadura a TGCh

- datblygu dulliau meddwl, cymwysiadau a chreadigrwydd cyfrifiadurol i ddeall a datrys problemau yn y byd go iawn
- defnyddio data o'r byd go iawn yn ymwneud â materion byd-eang ar gyfer cofnodi, trin, modelu a rheoli data
- ystyried effeithiau TGCh ar unigolion, cymunedau a chymdeithas, gan gynnwys goblygiadau cymdeithasol, economaidd a moesegol bod â chyfleoedd i ddefnyddio TGCh (e.e. effeithiau ar globaleiddio, tlodi, anghydraddoldeb, democratiaeth, amrywiaeth a gwrthdaro)
- datblygu dulliau meddwl yn feirniadol a llythrennedd y cyfryngau ar-lein

Mathemateg

- darparu cyfleoedd i egluro cysyniadau a phrosesau mathemategol drwy gyfrwng materion a data byd-eang
- defnyddio a chymhwyso mathemateg at broblemau a data'r byd go iawn (er enghraifft, data datblygu rhyngwladol)
- darparu cyfleoedd i ystyried dylanwad gwahanol ddiwylliannau ar fathemateg
- datblygu dulliau meddwl beirniadol yn ymwneud â defnyddio, cyflwyno a thrin data

Ieithoedd Tramor Modern

- ystyried materion yn ymwneud â hunaniaeth ac amrywiaeth drwy edrych ar nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng pobl, lleoedd, diwylliannau ac ieithoedd
- datblygu ymwybyddiaeth o gyd-gysylltiad byd-eang yn y modd y mae ieithoedd yn esblygu ac yn benthyg gan ei gilydd yn barhaus
- datblygu gwybodaeth a gwerthfawrogiad o wahanol ddiwylliannau a'u golwg ar y byd
- darparu cyfleoedd i ystyried materion byd-eang tra'n datblygu sgiliau darllen, ysgrifennu ac iaith lafar
- ystyried y cyd-destunau cenedlaethol a rhanbarthol amrywiol y caiff ieithoedd eu siarad ynddynt ar draws gwahanol gyfandiroedd (e.e. Ffrangeg yng Ngorllewin Affrica a'r Caribî, a Sbaeneg yn America Ladin)

Cerddoriaeth

- ystyried sut mae cerddoriaeth yn mynegi hunaniaeth, perthyn a theimladau mewn bywyd personol
- ystyried sut caiff cerddoriaeth ei defnyddio i brotestio yn erbyn anghyfiawnder cymdeithasol a hybu syniadau o newid cadarnhaol
- datblygu gwerthfawrogiad o amrywiaeth a chyd-gysylltiad byd-eang drwy ystyried sut mae gwahanol draddodiadau cerddorol yn ymdoddi a chroesffrwythloni a'r elfennau cyffredin mewn gwahanol draddodiadau cerddorol

Astudiaethau Modern (Yr Alban)

- ystyried yr agweddau cymdeithasol, gwleidyddol, amgylcheddol ac economaidd ar faterion datblygu lleol, cenedlaethol a byd-eang
- ystyried sut caiff cymdeithas, democratiaeth a chyd-berthynas pŵer eu ffurfio, gan ddatblygu dealltwriaeth o gyd-gysylltiad a chyd-ddibyniaeth byd-eang
- canfod cysylltiadau rhwng materion cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb yn y wlad hon a thramor
- datblygu cyfranogiad gweithredol a sgiliau meddwl yn feirniadol, ynghyd â gwerthoedd ac agweddau cytbwys at astudiaethau cymdeithasol

Addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economaidd

- datblygu gwybodaeth am wahanol fathau o hawliau
- ymwneud â materion amrywiaeth, hunaniaeth a chydraddoldeb drwy ystyried nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng pobl a'u profiadau, a thrwy drafod penblethau cymdeithasol a moesol
- ystyried lles ym mhob synnwyr a ffactorau allweddol yn hyn o beth (yn lleol ac yn fyd-eang), a ffactorau sy'n achosi anghydraddoldebau economaidd a chanlyniadau hynny
- Ystyried sut mae defnyddi a chamddefnyddio pŵer, camddefnyddio ac anghydraddoldeb pŵer, o'r lefel leol i'r lefel fyd-eang, yn gallu effeithio ar les unigolion a chymunedau

Addysg Gorfforol

- datblygu sgiliau cydweithio a gwerthfawrogiad o gyd-ddibyniaeth drwy waith tîm
- hybu synnwyr o chwarae teg, parch y naill at y llall, a'r gallu i reoli emosiynau a gwrthdaro
- darparu cyfleoedd i herio ystrydebau ar sail diwylliant, rhyw a hil, ac ystyried y berthynas rhwng chwaraeon a hunaniaeth a materion fel cynhwysiant, gwrthdaro, hiliaeth a thrais

Addysg Grefyddol

- defnyddio gwahanol safbwyntiau i ystyried themâu cyfiawnder, cydraddoldeb, gofal am eraill ac am y blaned, heddwch a gwrthdaro
- datblygu ymwybyddiaeth o amrywiaeth drwy ystyried gwahanol werthoedd, agweddau a chredoau
- ystyried rôl credoau a sefydliadau crefyddol mewn dinasyddiaeth fyd-eang a materion byd-eang
- datblygu empathi, dulliau meddwl yn greadigol, parch at eraill a'r gallu i ddadlau yn effeithiol

Gwyddoniaeth

- edrych ar y cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y mae ymholi gwyddonol yn digwydd ynddynt
- ystyried materion moesegol yn ymwneud â gwyddoniaeth, ymchwiliadau gwyddonol a'r defnydd a wneir o wyddoniaeth
- ystyried cyfraniad gwyddoniaeth i ddadleuon ynghylch datblygu cynaliadwy a newid hinsawdd
- datblygu gwerthfawrogiad o gyd-ddibyniaeth o fewn y byd naturiol a rhwng pobl a'r blaned
- darparu cyfleoedd i ystyried cyfraniadau gwahanol ddiwylliannau at wyddoniaeth

YMAGWEDD YSGOL GYFAN AT DDINASYDDIAETH FYD-EANG

Profiad Oxfam yw bod ymwreiddio dinasyddiaeth fyd-eang ar draws pob agwedd ar fywyd ysgol yn arwain at fwy o effaith a budd i'r dysgwyr. Fel safbwynt ar y byd a rennir o fewn ysgol, mae dinasyddiaeth fyd-eang yn rhoi diben, ysgogiad a chydlyniad i addysgu a dysgu tra'n atgyfnerthu sgiliau allweddol a gwerthoedd drwy brofiad ehangach y dysgwyr o fywyd ysgol.

Mae'r fframwaith hwn, a ddefnyddir gan ysgolion Ffurfwyr Byd Oxfam, yn egluro sut gall ymagwedd ysgol gyfan gael ei defnyddio yn ysgogiad i gynllunio ar sail ysgol gyfan.

Ethos yr ysgol	Y cwricwlwm	Cyfranogi	Datblygu staff	Pontio	Ymgysylltu â'r gymuned
Sicrhau bod dinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei hadlewyrchu yng ngweledigaeth, ethos a chynllun datblygu eich ysgol, a bod dysgwyr yn chwarae rôl allweddol mewn penderfyniadau.	Hybu dinasyddiaeth fyd-eang ar draws y cwricwlwm, gan gynnal gweithgareddau ar draws amrywiaeth o bynciau a chyfnodau allweddol.	Galluogi'r dysgwyr i gyfranogi mewn prosiectau dinasyddiaeth fyd-eang, neu'u harwain, drwy weithgareddau cwricwlaidd neu allgyrsiol – e.e. dysgu gan gyfoedion neu ar draws cyfnodau.	Datblygu dealltwriaeth staff o ddinasyddiaeth fyd-eang a dulliau cyfranogol a beirniadol, a chynllunio amser i gydlynu prosiectau.	Defnyddio dinasyddiaeth fyd-eang i gynorthwyo'r camau pontio rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd, ac ystyried lle gwerthoedd a sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang mewn addysg bellach ac uwch ac yn y gweithle.	Datblygu ffyrdd i ymgysylltu â'ch cymuned leol gan ddefnyddio dinasyddiaeth fyd-eang a gwahodd aelodau o'r gymuned i ddigwyddiadau perthnasol.

Mae'n golygu meddwl ar lefel eang, ond cychwyn ar gamau bach, ymarferol. Y ffordd orau i drefnu'r rhain yw drwy broses cynllunio-gwneud-adolygu wedi'i chefnogi gan yr uwch dîm arwain ac wedi'i chysylltu â blaenoriaethau presennol yr ysgol lle y bo'n bosibl. Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos y gwahaniaeth cadarnhaol y gall wneud. Mae tudalennau 22-23 yn rhoi manylion ble gall ysgolion ddod o hyd i gymorth.

ASTUDIAETH ACHOS LLEISIAU'R MYFYRWYR YN ARWAIN Y FFORDD

Fel un o Ysgolion Ffurfwyr Byd Oxfam, 'canolfan arbenigol' yn Rhaglen Dysgu Byd-eang (Lloegr) a deiliad Baner Werdd Eco-Sgolion, mae Ysgol Syr John Lawes yn Harpenden wedi rhoi lle canolog i lais ac arweiniad yn eu hymagwedd at ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae Grŵp Llysgenhadol Ieuenctid Oxfam a'r Eco-Gyngor yn benodol yn chwarae rôl ganolog wrth yrru dinasyddiaeth fyd-eang ar draws yr ysgol a thu hwnt. Mae grŵp Oxfam yn lleisio barn ar faterion byd-eang ac yn helpu i lunio ethos yr ysgol. Maent wedi cyfarfod ag ASau ac wedi ymweld â 10 Downing Street. Mae cynllun Arweinwyr Gwyrdd wedyn yn hyfforddi myfyrwyr chweched dosbarth i gynnal gwasanaethau mewn ysgolion cynradd. Yn fwy eang, mae cyfle i'r holl ddysgwyr leisio eu barn yn yr ysgol drwy gynrychiolwyr a'r tîm arwain iau.

Bu gweithgareddau dan arweiniad y dysgwyr yn sbardun ar gyfer gwaith pellach, gan annog rhagor o athrawon i gymryd rhan. Felly bu datblygu dinasyddiaeth fyd-eang ar draws pob maes yn y cwricwlwm yn broses organig, ond yn un a gafodd gefnogaeth gref gan yr uwch dîm arwain a'r pennaeth sy'n pwysleisio'r cysylltiadau cryf sydd rhwng sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang a'r safonau academaidd uchel y mae'r ysgol yn eu cyrraedd.

"Mae'n bwysig bod ysgolion yn hybu hyder y disgyblion a'u gallu i leisio barn."
Dysgwr yn Ysgol Syr John Lawes

ASTUDIAETH ACHOS RHAGORIAETH ESTYN, DINASYDDIAETH FYD-EANG A DATBLYGU CYNALIADWY

Mae Ysgol Heronsbridge ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynorthwyo dysgwyr rhwng 3 oed ac 19 oed sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig mewn perthynas ag anawsterau dysgu llym, difrifol, neu gymhleth. Fel rhan o raglen Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang y rhaglen, mae'r ysgol wedi cyflwyno cyfres o brosiectau garddio. Mae'r rhain yn galluogi'r dysgwyr i ystyried materion cynaliadwyedd a datblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang tra'n dysgu sgiliau garddio a meithrin agweddau cadarnhaol at fwyta'n iach. Sefydlodd yr ysgol gyfres o brosiectau bwyd cynaliadwy cysylltiedig gyda'i hysgolion partner yn Tanzania a Botswana. Er enghraifft, creodd yr ysgolion ardd twll clo yr un (dull o arddio sy'n seiliedig ar ailgylchu, compostio a chadw dŵr). Mae ysgol Heronsbridge hefyd wedi datblygu prosiect ailgylchu sy'n darparu profiad gwaith ar y safle ac yn galluogi'r gymuned ym Mhen-y-bont ar Ogwr i ailgylchu beiciau nad ydynt eu heisiau mwyach.

Yn 2014, dyfarnodd Estyn 'ragoriaeth ddwbl' i Ysgol Heronsbridge School, sy'n beth prin, ac mewn adolygiad ar wahân o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yng Nghymru, canfu Estyn hefyd bod y dysgwyr yn Heronsbridge, drwy hyn, wedi cynyddu eu hyder, eu cydnerthedd a'u cyrhaeddiad. Mae'r maes hwn hefyd wedi galluogi i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau meddwl, trefnu, cyfathrebu a phenderfynu, eu dealltwriaeth fyd-eang a'u synnwyr o ddinasyddiaeth fyd-eang.

ASTUDIAETH ACHOS O'R CWRICWLWM CRAIDD I'R GYMUNED: HAWLIAU, CYFRANOGI A LLAIS

Mae'r tîm arwain yn Ysgol Iau Torriano yn Llundain yn ystyried bod eu hymagwedd ysgol gyfan at ddinasyddiaeth fyd-eang yn sylfaenol i'r lefel uchel o gyrhaeddiad ar draws yr ysgol. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cyfuno pynciau a themâu byd-eang, cynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol a sgiliau llythrennedd a rhifedd craidd, ac mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn greiddiol i ethos yr ysgol. Mae cyfuno dinasyddiaeth fyd-eang a rhaglen Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF wedi cyfrannu at effaith drawsffurfiol cwricwlwm Torriano, gan wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu, y cyswllt â'r rhieni a'r gymuned, ac ysgogiad y dysgwyr. Y mae'n annog y dysgwyr i greu cyswllt rhwng yr hyn maent yn dysgu a'r byd o'u hamgylch, i barchu pobl a gwerthfawrogi amrywiaeth, a gofalu am eraill ac eirioli drostynt. Caiff rhieni a theuluoedd eu hannog i fynychu digwyddiadau 'Lleisio Barn' sy'n galluogi'r dysgwyr i rannu'r hyn maent wedi dysgu gyda'r gymuned, mesur agweddau at faterion datblygu byd-eang a mynegi'u barn wrth eu AS lleol ac eraill sy'n llunio barn. Mae'r cyfleoedd hyn i ddysgwyr fynegi eu barn yn amhrisiadwy o ran gwella eu hyder a'u hunan-barch, ac yn rhoi sylfaen ragorol ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

"Rydym eisiau i'r plant fod yn hyderus, rydym eisiau iddynt fod yn chwilfrydig, rydym eisiau iddynt feddu ar yr holl wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt. Ond rydym hefyd eisiau iddynt ddeall y byd sy'n newid, a bod yn rhan o drafodaeth ynghylch sut gallant hybu cydraddoldeb, a gwybod eu bod yn ddinasyddion y presennol."

Susan Bush, Arweinydd Datblygu'r Cwricwlwm, Ysgol Iau Torriano

CWRICWLWM OXFAM AR GYFER DINASYDDIAETH FYD-EANG GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

	3 – 5 oed	5 – 7 oed	7 – 11 oed	11 – 14 oed	14 – 16 oed	16 – 19 oed
Cyfiawnder a thegwch cymdeithasol	• Beth sy'n deg ac yn annheg • Pwysigrwydd gofalu a rhannu	• Beth yw ystyr tegwch • Enghreifftiau o'r hyn a all olygu i fod yn gyfoethog neu'n dlawd mewn cyd-destun lleol a chyd-destunau eraill	• Efallai nad yw tegwch bob amser yn golygu triniaeth deg • Rhai ffactorau sy'n achosi tlodi ac anghydraddoldeb, a'u heffeithiau, (gan gynnwys anghydraddoldebau rhyw) ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang	• Ffyrdd i ddiffinio a mesur tlodi (cymharol ac absoliwt) ac anghydraddoldeb • Anghydraddoldebau oddi mewn i gymdeithasau a rhyngddynt a sut gall y rhain newid • Ffactorau sy'n achosi tlodi, anghydraddoldeb ac allgáu, a'u heffeithiau ehangach	• Ffactorau sylfaenol sy'n achosi tlodi ac anghydraddoldeb a'r berthynas â pholisïau, pŵer a systemau • Gwahanol safbwyntiau ar sut gall tlodi, anghydraddoldeb ac annhegwch gael eu lleihau • Mentrau cenedlaethol a rhyngwladol i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb	• Heriau a phenblethau yn ymwneud â chyfiawnder a thegwch cymdeithasol • Safbwyntiau gwahanol ar gyfiawnder cymdeithasol a ffyrdd o'i gyflawni
Hunaniaeth ac amrywiaeth	• Unigrywiaeth a gwerth pob person • Nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhyngoch eich hun ac eraill	• Nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng pobloedd yn lleol a hefyd mewn cyd-destunau ehangach • Beth sy'n cyfrannu at hunaniaeth a pherthyn	• Amrywiaeth diwylliannau a chymdeithasau oddi mewn i'ch profiad eich hun a thu hwnt • Cyfraniadau gwahanol ddiwylliannau i'n bywydau • Natur rhagfarn, hiliaeth a gwahaniaethu ar sail rhyw, a ffyrdd i'w trechu	• Manteision a heriau amrywiaeth • Effeithiau ystrydebu, rhagfarn a gwahaniaethu a sut i'w herio • Pwysigrwydd iaith, credoau a gwerthoedd mewn hunaniaeth ddiwylliannol	• Rôl iaith mewn rhagfarn, gwahaniaethu ac allgáu • Effeithiau prosesau hanesyddol (e.e. caethwasiaeth a gwladychu) ar hunaniaeth, diwylliant a phŵer pobl heddiw	• Natur amlweddog a hyblyg hunaniaeth • Tueddiadau diwylliannau dominyddol i hyrwyddo ffyrdd penodol o weld a deall y byd ac israddio eraill
Globaleiddio a chyd-ddibyniaeth	• Yr amgylchedd uniongyrchol a lleol • Cysylltiadau syml â lleoedd eraill (e.e. drwy fwyd)	• Nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng lleoedd mewn amryw rannau o'r byd, gan gynnwys eich lleoliad eich hun • Cysylltiadau rhwng y gymuned leol a'r byd yn ehangach	• Cysylltiadau byd-eang rhwng pobloedd a gwledydd (e.e. drwy fasnach a chyfathrebu) • Sut mae gweithredoedd lleol yn effeithio ar y byd ehangach	• Cysylltiadau a rhyng-ddibyniaethau rhwng materion byd-eang a lleol • Newid grymoedd byd-eang ac effeithiau ar fywydau pobl • Effeithiau penderfyniadau a wneir ar lefelau lleol, cenedlaethol neu fyd-eang ar bobl a'r amgylchedd ar draws ffiniau gwledydd	• Cymhlethdod globaleiddio a materion byd-eang • Anghydbwysedd yn y berthynas bŵer rhwng gwledydd cyfoethog a thlawd ac effeithiau hyn • Systemau economaidd a gwleidyddol byd-eang	• Effeithiau globaleiddio ar gyfoeth ac anghydraddoldeb ar wahanol raddfeydd • Beirniadaeth o wahanol ymagweddau at fasnach, llifoedd ariannol, symudiadau pobl a llywodraethu byd-eang • Heriau a chyfleoedd globaleiddio i lywodraethau a chymunedau
Datblygu cynaliadwy	• Pethau byw a'u hanghenion • Sut i ofalu am yr amgylchedd uniongyrchol • Posibilrwydd o newid yn y dyfodol	• Yr effeithiau cadarnhaol a negyddol sydd i weithredoedd pobl (gan gynnwys eich dewisiadau personol eich hun) ar eraill a'r amgylchedd • Sut gall pobl niweidio neu wella'r amgylchedd	• Dibyniaeth pobl ar yr amgylchedd • Nodweddion sylfaenol newid hinsawdd (ffactorau sy'n eu hachosi, a'u effeithiau) • Byw mewn ffordd gyfrifol yn amgylcheddol ac anghydraddoldeb byd-eang o ran ôl-troed ecolegol	• Safbwyntiau gwahanol ynglŷn â datblygu ac ansawdd bywyd a mesur hynny • Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a chynnydd yn eu herbyn • Pwysigrwydd bioamrywiaeth • Ffactorau sy'n achosi newid hinsawdd a'i oblygiadau ehangach	• Penblethau ynghylch datblygu a chynaliadwyedd • Y goblygiadau moesol, moesegol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sydd i ganfyddiadau gwyddonol a datblygiadau technolegol • Rôl llywodraethau, busnesau, sefydliadau anllywodraethol a dinasyddion ym maes datblygu cynaliadwy	• Theorïau datblygu a beirniadaeth ohonynt • Y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy a sut y caiff ei herio • Rôl cyfranogiad a grymuso unigolion a chymunedau ym maes datblygu

	3 – 5 oed	5 – 7 oed	7 – 11 oed	11 – 14 oed	14 – 16 oed	16 – 19 oed
Heddwch a gwrthdaro	• Sut mae canlyniadau i'ch gweithredoedd eich hun • Rhai ffyrdd sylfaenol i osgoi, rheoli a datrys gwrthdaro	• Ffactorau sy'n achosi anghydfodau a gwrthdaro ar lefelau personol, yn yr ystafell ddosbarth ac yn y cartref • Rhai ffyrdd i osgoi, rheoli a datrys gwrthdaro	• Rhai ffactorau sy'n achosi gwrthdaro, a'i effeithiau, ar bob lefel, o'r personol i'r byd-eang • Strategaethau i reoli, datrys ac osgoi gwrthdaro, gan gynnwys atebion sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall • Enghreifftiau o wrthdaro yn y gorffennol a'r presennol yn ein cymdeithas ein hun a chymdeithasau eraill	• Ffactorau ehangach sy'n achosi gwrthdaro a'u heffeithiau, ar bob lefel • Pwysigrwydd datrys gwrthdaro yn deg • Rôl protestio di-drais wrth sicrhau newid cymdeithasol a gwleidyddol	• Cysylltiadau rhwng cyfiawnder a heddwch, ac amodau ar gyfer heddwch parhaus • Canlyniadau creadigol a chadarnhaol i wrthdaro • Theori rhyfel cyfiawn a beirniadaeth ohoni	• Cymhlethdod gwrthdaro a pham fod rhai achosion yn anoddach i'w datrys nag eraill • Rôl gwrthdaro wrth greu amodau ar gyfer newid ar lefelau cenedlaethol a byd-eang
Hawliau dynol	• Anghenion sylfaenol ar gyfer bywyd pobl	• Hawliau yn y dosbarth a'r ysgol • Yr angen i barchu hawliau pobl eraill • Hawliau dynol sylfaenol a sut maent wedi'u gwrthod i rai pobl	• Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn • Rhesymau pam fod eu hawliau wedi'u gwrthod i rai pobl • Y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan bobl eu hawliau (e.e. athrawon, llywodraeth leol a chenedlaethol)	• Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol • Pwysigrwydd bod dinasyddion, cymdeithasau a llywodraethau yn parchu ac amddiffyn hawliau dynol pobl • Materion a mudiadau cyfredol a hanesyddol yn ymwneud â hawliau dynol yn ein gwlad ein hunain a thramor	• Ffactorau sylfaenol sy'n arwain at achosion o fynd yn groes i hawliau dynol, a'r ffactorau gwleidyddol, cyfreithiol, cymdeithasol-ddiwylliannol, crefyddol ac economaidd sy'n cefnogi neu'n tanseilio hawliau dynol mewn cyd-destunau penodol • Ymrwymiadau'r wladwriaeth ynghylch hawliau dynol	• Hanes ac athroniaeth hawliau dynol • Natur hawliau dynol a syniadau yn ymwneud a'u cyffredinolrwydd, anwahanoldeb a chyd-ddibyniaeth, a sut caiff hynny ei herio • Heriau i hawliau dynol a phenblethau sy'n wynebu llywodraethau
Pŵer a llywodraethu	• Rheolau yn y dosbarth a'r ysgol • Sut gall rheolau ein helpu	• Sut i chwarae rhan yn y gwaith o lunio a newid rheolau yn eich dosbarth/ysgol eich hun • Pŵer wedi'i rannu'n anghyfartal a sut mae rhai pobl heb eu cynnwys mewn penderfyniadau	• Yr angen am reolau yn eich ysgol eich hun a chymdeithas yn ehangach a sut gall pobl gymryd rhan yn y gwaith o'u llunio a'u newid • Nodweddion sylfaenol sut mae eich gwlad a'ch rhanbarth eich hun yn cael eu llywodraethu	• Strwythurau a systemau llywodraethu cenedlaethol, rhanbarthol (e.e. yr UE) a byd-eang, a gwahaniaethau rhwng gwledydd • Sut gall diffyg pŵer a chynrychiolaeth arwain at wahaniaethu ac allgáu • Pŵer gweithredu cyfunol a rôl mudiadau cymdeithasol a llywodraethau wrth fynd i'r afael ag anghyfiawnder	• Strwythurau a phrosesau llywodraethu byd-eang • Cydweithredu rhyngwladol ar heriau byd-eang • Sut gallai ehangu pŵer a dylanwad gwledydd neu sefydliadau effeithio ar ddiwylliannau, agweddau a phrofiadau y rhai dan sylw	• Sut mae unigolion a grwpiau, a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, yn ymwneud â llywodraethu byd-eang • Sut mae perthynas pŵer anghyfartal rhwng gwladwriaethau cenedl yn effeithio ar faterion byd-eang • Ffactorau sy'n llesteirio dinasyddiaeth ac ymgysylltiad dinesig ar lefelau byd-eang, cenedlaethol a lleol

CWRICWLWM OXFAM AR GYFER DINASYDDIAETH FYD-EANG SGILIAU

	3 – 5 oed	5 – 7 oed	7 – 11 oed	11 – 14 oed	14 – 16 oed	16 – 19 oed
Meddwl yn feirniadol a chreadigol	• Gofyn cwestiynau • Awgrymu ffordd i ddatrys problem • Meddwl am syniadau	• Gofyn cwestiynau perthnasol • Ystyried rhinweddau gwahanol safbwyntiau • Defnyddio gwahanol ddulliau i ddatrys problemau	• Dechrau adnabod tuedd a barn • Rhoi tystiolaeth o blaid dadl, asesu gwahanol safbwyntiau a chyflwyno gwrth-ddadleuon • Dychmygu posibiliadau gwahanol ac awgrymu syniadau newydd i ddatrys problemau	• Gwerthuso'r cyfryngau a ffynonellau eraill am duedd, ystrydebau ac amrywiaeth o leisiau a safbwyntiau • Dadansoddi eich tybiaethau eich hun ac eraill am bobl a materion • Cadw meddwl agored i syniadau newydd	• Gwerthuso a chyfosod amrywiaeth o safbwyntiau, dadleuon a thystiolaeth ynghylch materion a dechrau dadansoddi'r defnydd o ddata • Adnabod gwerthoedd a thybiaethau ymhlyg • Gwneud cysylltiadau rhwng syniadau a gwybodaeth	• Gwerthuso gwahanol ddulliau o fynd i'r afael â heriau byd-eang • Asesu sut mae pŵer yn effeithio ar farn, llais, penderfyniadau, llywodraethu a sut caiff gwybodaeth ei llunio • Cyfosod syniadau ac ymwneud yn y broses o ddatblygu atebion newydd i faterion lleol a byd-eang
Empathi	• Sensitifrwydd i deimladau ac anghenion pobl	• Dangos ymwybyddiaeth o deimladau pobl, a dangos gofal tuag atynt • Diddordeb mewn eraill y tu hwnt i'r cylch agosaf ac mewn cyd-destunau gwahanol i'ch hun, a dangos gofal tuag atynt	• Addasu ymddygiad er mwyn rhoi ystyriaeth i deimladau pobl eraill • Dangos empathi at bobl mewn cyd-destunau lleol a phellach • Deall effeithiau rhagfarn a gwahaniaethu	• Dirnad sut mae pobl yn teimlo drwy eu geiriau, iaith y corff, ystumiau a thôn • Adnabod sut mae gwahanol gefndiroedd, credoau a phersonoliaethau yn effeithio ar ymddygiad a golwg ar y byd	• Gwrando ar eraill ag empathi • Edrych ar y byd a materion lleol-byd-eang o amrywiaeth eang o safbwyntiau	• Deall sut gall amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd pobl ffurfio y ffordd maent yn edrych ar sefyllfaoedd a gwneud dewisiadau • Deall cymhlethdod ysgogiadau amrywiaeth eang o weithredwyr mewn sefyllfaoedd penodol
Hunan-ymwybyddiaeth a myfyrio	• Adnabod, enwi ac ymdrin â theimladau mewn ffordd gadarnhaol • Sylwi ar effeithiau rhai o'ch gweithredoedd eich hun ar eraill • Nodi sut mae pobl yn teimlo (e.e. hapus, trist, pryderus)	• Adnabod effeithiau eich ymddygiad eich hun ar eraill a defnyddio hyn i helpu i wneud dewisiadau • Adnabod materion sy'n bwysig i chi ac i eraill • Dysgu o gamgymeriadau a defnyddio adborth	• Nodi cysylltiadau rhwng penderfyniadau personol a materion sy'n effeithio ar bobl yn lleol ac yn fyd-eang • Ystyried rhesymau dros deimladau negyddol tuag at eraill ac mewn sefyllfaoedd newydd neu anodd	• Nodi cryfderau a gwendidau personol • Gwerthuso sut y gall eich emosiynau, eich geiriau a'ch ymddygiad eich hun effeithio ar bobl yn lleol ac yn fyd-eang	• Dangos ymwybyddiaeth o ddylanwad diwylliant ar sut mae rhywun yn gweld y byd, ac adnabod cyfyngiadau eich safbwyntiau eich hun. • Gwerthuso profiadau, yr hyn a ddysgwyd ac adborth, a'u defnyddio i gyfarwyddo'r hyn a ddysgir, eich ffordd o feddwl a'ch gweithredoedd yn y dyfodol	• Dadansoddi, egluro a herio eich gwerthoedd eich hun a sut maent yn dylanwadu ar ddewisiadau a ffordd o fyw • Dadansoddi sut mae ein meddyliau ein hunain yn cael eu cyflyru gan gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol a sut mae hyn yn effeithio ar ein ffordd o feddwl am faterion • Mynegi dealltwriaeth bersonol o'r hyn mae'n golygu i fod yn ddinesydd byd-eang
Cyfathrebu	• Gwrando ar eraill • Cymryd tro i siarad a mynegi barn	• Cyfranogi mewn trafodaethau ar faterion sy'n effeithio ar eich hun, eraill a'r byd yn ehangach • Datgan barn a dechrau rhoi rhesymau dros y rhain • Gwrando'n ofalus ar eraill	• Gwrando'n astud, cwestiynu ac ymateb i eraill • Mynegi eich barn a'ch syniadau eich hun gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol • Rhoi rhesymau, tystiolaeth ac enghreifftiau i gefnogi barn	• Cyfathrebu'n effeithiol drwy amrywiaeth o gyfryngau ynglŷn â materion mewn ffordd sy'n addas i'r pwnc, y gynulleidfa a'r diben • Defnyddio sgiliau gwrando gweithredol • Addasu ymddygiad i amgylchiadau diwylliannol newydd	• Dadlau'n rhesymegol ynglŷn â materion byd-eang mewn ffordd sy'n dwyn perswâd • Dadansoddi effaith modd, cyfrwng a chynnwys yr hyn a gyfathrebir ar wahanol grwpiau	• Gwrando a myfyrio ar safbwynt person arall, ei werthuso ac ymateb yn briodol iddo • Nodi heriau cyfathrebu rhwng diwylliannau a mynd i'r afael â hwy

	3 – 5 oed	5 – 7 oed	7 – 11 oed	11 – 14 oed	14 – 16 oed	16 – 19 oed
Cydweithio a datrys gwrthdaro	• Cyfranogi mewn gweithgareddau grŵp • Cymryd tro a rhannu • Rheoli anghydfodau yn heddychlon	• Cyd-chwarae a chydweithio • Helpu i sicrhau bod pawb yn eich grŵp eich hun wedi'u cynnwys • Dechrau dangos doethineb a diplomyddiaeth	• Cydweithio i ddatrys problemau neu gyrraedd nodau • Defnyddio strategaethau i reoli dicter, rhwystredigaeth a theimladau ymosodol • Defnyddio gwybodaeth am safbwyntiau eraill i ddatrys problemau a chyfaddawdu	• Ymgymryd â gwahanol rolau mewn gwaith grŵp • Defnyddio gwahanol strategaethau i atgyweirio perthynas sydd wedi'i niweidio	• Myfyrio ar y rolau a chwaraeir mewn sefyllfaoedd grŵp, gan gynnwys arwain • Nodi atebion sy'n fuddiol i bawb er mwyn datrys rhai sefyllfaoedd o wrthdaro • Dangos sensitifrwydd at safbwyntiau amrywiol a normau diwylliannol wrth reoli gwrthdaro	• Trafod yn effeithiol mewn perthynas â chyfoedion ac oedolion • Cyfryngu mewn achosion o anghydfod • Defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddatrys neu reoli gwrthdaro
Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd	• Gofyn am gymorth os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud	• Disgrifio teimladau am newidiadau yn eich bywyd eich hun a'r ardal leol	• Disgrifio teimladau am newidiadau yn eich sefyllfa eich hun a'r byd yn ehangach • Defnyddio strategaethau i ymdopi ag adegau heriol • Adnabod adegau a allai fod heb un ateb cywir neu anghywir	• Addasu i sefyllfaoedd newydd ac ystyried ffyrdd newydd i edrych ar faterion lleol a byd-eang • Ystyried safbwyntiau niferus a gweledigaethau gwahanol o'r dyfodol	• Cyfuno safbwyntiau newydd neu ddiwygiedig â'r hyn rydych wedi'i ddysgu a'ch ffordd o feddwl a gweithredu ar faterion byd-eang • Rhannu nodau yn gamau cyraeddadwy a rhagweld a goresgyn rhwystrau	• Cymryd cyfrifoldeb am eich bywyd eich hun a gwneud dewisiadau doeth • Ymdrin â galwadau a pherthnasau newidiol mewn ffordd gadarnhaol
Gweithredu mewn ffordd gytbwys a myfyriol	• Cynorthwyo eraill yn y grŵp neu'r dosbarth	• Cyfrannu'n weithredol ac adeiladol at fywyd eich dosbarth a'ch ysgol eich hun • Gweithredu pan fo rhywbeth yn annheg	• Cyfranogi mewn penderfyniadau yn yr ysgol • Cyfrannu at les y gymuned ehangach • Rhannu barn a thystiolaeth ynghylch materion gydag eraill, gan gynnwys rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chynrychiolwyr etholedig	• Nodi a chynllunio gweithred(oedd) a chyfleoedd i leisio eich barn eich hun • Herio safbwyntiau sy'n rhoi parhad i anghydraddoldeb ac anghyfiawnder • Myfyrio ar yr hyn a ddysgir o weithredu	• Deall yr angen i ystyried eich agweddau, eich tybiaethau a'ch ymddygiad eich hun mewn ffordd feirniadol • Deall rolau rhai a etholwyd i wneud penderfyniadau a sut i ddylanwadu arnynt • Dewis nodau priodol a chynllunio sut i weithredu i'w cyrraedd	•Dadansoddi effeithiau amryw weithredwyr ar faterion byd-eang a sut i ddylanwadu arnynt •Cyfranogi mewn prosesau gwleidyddol perthnasol •Arwain eraill wrth fyfyrio ar faterion byd-eang a gweithredu'n fyfyriol

CWRICWLWM OXFAM AR GYFER DINASYDDIAETH FYD-EANG GWERTHOEDD AC AGWEDDAU

	3 – 5 oed	5 – 7 oed	7 – 11 oed	11 – 14 oed	14 – 16 oed	16 – 19 oed
Synnwyr o hunaniaeth a hunan-barch	• Ymwybyddiaeth o'ch hun a'ch unigrywiaeth • Synnwyr o hunan-werth a gwerth pobl eraill	• Synnwyr o berthyn a gwerthfawrogi perthynas ag eraill • Ymwybyddiaeth o'ch unigoliaeth eich hun a balchder ynddi	• Agwedd gadarnhaol at y ffordd y mae rhywun yn debyg i eraill ac yn wahanol • Gwerthfawrogi'r hyn sy'n cyfrannu at eich hunaniaeth eich hun	• Gwerthfawrogi eich unigoliaeth eich hun ac unigoliaeth pobl eraill • Bod yn agored i syniadau a safbwyntiau newydd sy'n herio eich rhai chi	• Gwerthfawrogiad o gyd-gysylltedd a chyd-ddibyniaeth pobl ar lefel leol a byd-eang • Synnwyr o berthyn i gymunedau lleol a byd-eang	• Gwerthfawrogiad o natur amlweddog a hyblyg hunaniaeth bersonol
Ymrwymiad i gyfiawnder a thegwch cymdeithasol	• Synnwyr o chwarae teg • Parodrwydd i gymryd tro a rhannu	• Parodrwydd i sefyll a siarad dros eraill • Tegwch wrth ymdrin ag eraill	• Cael eich tramgwyddo gan driniaeth annheg o eraill yn lleol ac yn fyd-eang • Synnwyr o gyfiawnder • Diddordeb cynyddol yn nigwyddiadau'r byd ac mewn materion byd-eang	• Bod a diddordeb weithredol mewn anghyfiawnder, ecsbloetiaeth a gwrthod hawliau dynol • Parodrwydd i weithredu yn erbyn anghyfiawnder ac annhegwch	• Synnwyr o gyfrifoldeb personol a chyfunol am faterion lleol a byd-eang • Parodrwydd i chwarae rhan mewn gweithgareddau sy'n hybu cyfiawnder a thegwch cymdeithasol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang	• Ymrwymiad i egwyddorion democratiaeth, cyfiawnder cymdeithasol, tegwch, a gwaredu tlodi
Parch at bobl a hawliau dynol	• Dechrau meddwl am eraill	• Parch at deimladau a syniadau pobl eraill • Parch at hawliau pobl eraill • Y gred bod gan bawb hawliau cyfartal	• Parodrwydd i feddwl drwy ganlyniadau geiriau, gweithredoedd a dewisiadau i eraill • Y gred bod herio rhagfarn a gwahaniaethu yn gyfrifoldeb i bawb	• Synnwyr o gydsafiad â rhai sy'n dioddef o dramgwyddo'n erbyn eu hawliau dynol, anghyfiawnder a gwahaniaethu • Ymrwymiad i ddal y rhai sydd â dyletswydd arnynt i gyfrif am gynnal hawliau cyfartal i bawb	• Cydnabod anghenion a hawliau cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r cenedlaethau presennol	• Ymrwymiad i warchod hawliau dynol
Gwerthfawro gi amrywiaeth	• Agwedd gadarnhaol at wahaniaeth ac amrywiaeth • Parodrwydd i wrando ar syniadau pobl eraill	• Gwerthfawrogi eraill fel pobl gydradd a gwahanol • Parodrwydd i wrando'n barchus ar syniadau a safbwyntiau pobl eraill hyd yn oed pan fyddwch yn anghytuno • Parodrwydd i ddysgu o brofiadau pobl eraill	• Gwerthfawrogi gwahaniaeth • Cydnabod manteision gwrando ar amrywiaeth o wahanol safbwyntiau a barn	• Parch at hawliau pawb i fod â barn • Parodrwydd i herio safbwyntiau rhagfarnllyd a gwahaniaethol • Cydnabod safbwyntiau amrywiol ar unrhyw fater ac nad yw barn y mwyafrif bob amser yn gywir	• Gwerthfawrogi y gall pobl ddysgu llawer o gefndiroedd a safbwyntiau amrywiol pobl eraill • Yr awydd i ddyfnhau dealltwriaeth a rhyngweithio â gwahanol ddiwylliannau, yn lleol ac yn fyd-eang	• Ymwybyddiaeth o'ch rhagfarnau a'ch tueddiadau eich hunain, ac ymrwymiad i'w goresgyn • Gwerthfawrogiad o werth gweithio gyda phobl o gefndiroedd gwahanol

	3 – 5 oed	5 – 7 oed	7 – 11 oed	11 – 14 oed	14 – 16 oed	16 – 19 oed
Gofal am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy	• Gwerthfawrogiad o bethau byw a'ch amgylchedd eich hun, a gofal tuag atynt • Synnwyr o ryfeddod a chwilfrydedd ynglŷn â'r byd • Dechrau gwerthfawrogi adnoddau	• Ystyriaeth o'r amgylchedd lleol a pharodrwydd i ofalu amdano • Gofalu am adnoddau a pheidio â'u gwastraffu	• Synnwyr o gyfrifoldeb am yr amgylchedd a'r defnydd o adnoddau • Ymrwymiad i weithredu i warchod a gwella'r amgylchedd ac ansawdd bywyd pobl yn lleol ac yn fyd-eang	• Gwerthfawrogiad o gyd-ddibyniaeth rhwng pobl a'r blaned • Ystyriaeth o effeithiau ffordd o fyw a dewisiadau defnyddwyr ar bobl a'r blaned	• Ystyriaeth o ddyfodol y blaned a chenedlaethau'r dyfodol • Parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb personol am newid ffordd o fyw • Parodrwydd i ymgysylltu â rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac ymgyrchu	• Parodrwydd i arwain a chynorthwyo eraill i hybu datblygu cynaliadwy
Ymrwymiad i gyfranogi a chynhwysiant	• Parodrwydd i chwarae'n deg a chynhwysol gydag eraill	• Parodrwydd i gyfranogi mewn gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan • Y gred y dylai pawb gael eu cynnwys ac y dylai pawb allu cyfranogi	• Cyfranogi'n weithredol mewn penderfyniadau sy'n seiliedig yn yr ysgol • Mynd ati'n weithredol i gynnwys pobl eraill, yn arbennig y rhai a allai fod yn wynebu rhwystrau i gyfranogi'n llawn	• Cynorthwyo ac annog eraill i gyfranogi • Parodrwydd i ddod i gytundeb drwy gyfaddawdu	• Ymrwymiad i gefnogi prosesau democrataidd a dysgu mwy am eich rôl eich hun ynddynt	• Ymrwymiad i egwyddorion cynhwysiant a chymorth gweithredol i gynnwys eraill mewn penderfyniadau
Y gred y gall pobl sicrhau newid	• Y gred y gall pawb wneud pethau i wella'u hamgylchoedd a chynorthwyo eraill	• Y gred y gall pobl wneud gwahaniaeth, ar eu pen eu hunain ac wrth weithio gydag eraill	• Y gred y gall unigolion a grwpiau wella sefyllfaoedd • Parodrwydd i gydweithredu ag eraill i newid pethau er gwell	• Parodrwydd i wneud safiad cytbwys ar faterion byd-eang • Y gred y gall pobl yn aml wneud mwy o wahaniaeth wrth weithredu ar y cyd	• Parodrwydd i barhau i ystyried eich agweddau, eich tybiaethau a'ch ymddygiad eich hun • Parodrwydd i weithio tuag at ddyfodol byd-eang sy'n decach a mwy cynaliadwy	• Parodrwydd i gydweithio ag eraill i sicrhau newid yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang

ADNODDAU A CHYMORTH PELLACH

oxfam.org.uk/education

Adnoddau: Mae gwefan Addysg Oxfam yn cynnwys adnoddau yn gysylltiedig â'r cwricwlwm yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion byd-eang. Mae gennym becynnau cymorth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang weithredol, adnoddau i'r ystafell ddosbarth, ac offer ar-lein. Ac mae llawer o'r adnoddau ar gael yn Gymraeg.

Arweiniad i athrawon a datblygu proffesiynol: Mae'r wefan hefyd yn cynnwys manylion rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus Oxfam i athrawon ac arweiniad am ddim i athrawon, er enghraifft:

- *Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Arweiniad i athrawon*
- *Mathemateg a Dinasyddiaeth Fyd-eang*
- *Saesneg a Dinasyddiaeth Fyd-eang*
- *Adeiladu Partneriaethau Ysgol Llwyddiannus*
- *Addysgu Materion Dadleuol*

Ffurfwyr Byd (Lloegr): Mae hyn yn cynnig cymorth pwrpasol i ysgolion yn Lloegr, oddi mewn i'r ysgol, er mwyn ymwreiddio dinasyddiaeth fyd-eang.

Llysgenhadon Ieuenctid: Mae'r cynllun hwn yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr arwain eu cyfoedion wrth ddysgu, meddwl a gweithredu ar faterion byd-eang.

Mae adnoddau'r Grŵp Llysgenhadon Ieuenctid yn perthyn yn benodol i gyd-destunau addysgol a gwleidyddol Lloegr. Er y gallwn dderbyn cofrestriadau gan grwpiau yng Nghymru a'r Alban sy'n dymuno addasu'r adnoddau hyn i'w defnyddio yn eu cyd-destunau hwy, darparu cymorth o bell o'n swyddfeydd yn Lloegr yn unig a all Oxfam.

Os oes gennych ymholiadau pellach am waith Oxfam ym maes addysg, ffoniwch 0300 200 1300 neu anfonwch e-bost i education@oxfam.org.uk.

Llun: John McLaverty

Rhaglen Dysgu Byd-eang

Mae Rhaglen Dysgu Byd-eang yn darparu cymorth am ddim yn ymwneud ag ymagwedd ysgol gyfan at ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygu proffesiynol i athrawon.

- Lloegr: globaldimension.org.uk/glp
- Gogledd Iwerddon: centreforglobaleducation.com/global-learning-programme
- Yr Alban: ideas-forum.org.uk/glps
- Cymru: globaldimension.org.uk/glpwales

globaldimension.org.uk

Mae gwefan Global Dimension yn rhoi arweiniad y gellid ei chwilota i ragor na 1,000 o lyfrau, ffilmiau, posteri ac adnoddau ar y we, ac adolygiadau ohonynt, sy'n cynorthwyo dysgu byd-eang ar draws pob grŵp oedran a phob pwnc.

hwb.wales.gov.uk

Rhith-amgylchedd dysgu ar gyfer Cymru gyfan yw Hwb, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o offer ac adnoddau dysgu digidol dwyieithog, gan gynnwys adnoddau sy'n cynorthwyo Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

ideas-forum.org.uk

Mae IDEAS (Cymdeithas Addysg Datblygu Rhyngwladol yr Alban) yn rhwydwaith o sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud ag addysgu ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang ledled yr Alban. Mae gwefan IDEAS yn cynnwys manylion prosiectau a rhaglenni ar gyfer ysgolion ac athrawon, yn ogystal â chylchgrawn rheolaidd sy'n cynnwys erthyglau ar faterion byd-eang, gweithgareddau ymarferol i'r ystafell ddosbarth ac adnoddau defnyddiol, ynghyd â newyddion gan ysgolion ac aelodau IDEAS.

britishcouncil.org/connectingclassrooms

Mae Connecting Classrooms yn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu dinasyddiaeth fyd-eang drwy bartneriaethau rhyngwladol rhwng ysgolion.

globalclassrooms.org.uk

Mae'r Consortiwm o Ganolfannau Addysg Datblygu yn cynnwys aelodau ledled Lloegr, a phob un yn sefydliad annibynnol lleol nid-er-elw sydd â'u gwaith craidd yn cynnwys cynorthwyo a chyflwyno addysg fyd-eang i ysgolion.

Athroniaeth i Blant - sapere.org.uk

Methodoleg ragorol i annog dysgwyr i ystyried amrywiaeth o safbwyntiau, ac y gellir ei defnyddio gan blant o bob oed.

Open Spaces for Dialogue and Enquiry – osdemethodology.org.uk

Cyfres o weithdrefnau ac adnoddau i helpu i strwythuro mannau diogel ar gyfer deialog ac i ymholi am faterion byd-eang a hybu llythrennedd beirniadol.

Sefydliad Addysg UCL - ioe.ac.uk/derc

Mae Canolfan Ymchwil Addysg Datblygu, Sefydliad Addysg UCL, yn cyhoeddi papurau ymchwil ar ymarfer dysgu byd-eang mewn ysgolion.

Sefydliadau Anllywodraethol

Ar wahân i Addysg Oxfam, mae nifer o sefydliadau anllywodraethol eraill yn cefnogi addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang. Er enghraifft, gweler gwefannau ActionAid, Amnesty International UK, y Groes Goch Frenhinol, Cymorth Cristnogol, CAFOD, Fairtrade Foundation, Islamic Relief, MADE in Europe, Practical Action a Tzedek, i enwi ychydig yn unig.

© Oxfam GB 2015. Cedwir pob hawl.

Mae'r llyfryn hwn yn destun hawlfraint, ond ceir ei atgynhyrchu drwy unrhyw ddull heb ffi at ddibenion addysgu a dysgu mewn sefydliadau addysgol.
Er mwyn cael hawlfraint mewn unrhyw amgylchiadau eraill, i'w ailddefnyddio mewn cyhoeddiadau eraill neu i'w gyfieithu neu ei addasu, bydd yn rhaid cael caniatâd ysgrifenedig oddi wrth:
Oxfam Education and Youth, Oxfam House, John Smith Drive, Oxford OX4 2JY.
Ebost: education@oxfam.org.uk, ac efallai y bydd gofyn talu ffi.

Wedi ei brintio ar bapur sydd wedi ei aitgylchu 100%.

oxfam.org.uk/education

Llun clawr: Georgie Scott/GCE UK

Mae Oxfam yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru, rhif 202918, ac yn yr Alban, rhif SC039042.
Mae Oxfam GB yn aelod o Oxfam International.

OXFAM